



Cymdeithas
Cyfieithwyr
Cymru

Adroddiad ar weithgareddau 2018-19

Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru

Intec
Parc Menai
Bangor
Gwynedd
LL57 4FG

01248 371839

swyddfa@cyfieithwyr.cymru

www.cyfieithwyr.cymru



@cyfieithwyr

Cofrestrwyd yng Nghymru: 4741023

Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru

Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru yw'r corff cenedlaethol sy'n arwain, datblygu a hyrwyddo cyfieithu proffesiynol. Hi yw'r unig gymdeithas broffesiynol ar gyfer cyfieithwyr Cymraeg/Saesneg, p'un a ydynt yn gyfieithwyr testun ynteu'n gyfieithwyr ar y pryd, a bu'n allweddol wrth greu cymuned o gyfieithwyr proffesiynol ledled Cymru.

Mae gan y Gymdeithas dair lefel o aelodaeth: Cyflawn a Sylfaenol ym maes cyfieithu testun, ac aelodaeth Cyfieithu ar y Pryd (CAP).

Mae'r Gymdeithas yn cynrychioli pob agwedd ar gyfieithu proffesiynol Cymraeg/Saesneg: mae aelodau'r Gymdeithas yn gweithio mewn swyddi yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector, yn y sector preifat, ac ar eu liwt eu hunain.

Ers ei sefydlu yn 1976 mae'r Gymdeithas wedi:

- cynnal, datblygu a hyrwyddo'r safonau proffesiynol uchaf mewn cyfieithu Cymraeg/Saesneg trwy osod y safonau cyfieithu proffesiynol hynny, a gwella, cynyddu a datblygu sgiliau a gwybodaeth cyfieithwyr.

- sicrhau bod y proffesiwn/diwydiant cyfieithu yn datblygu'n effeithiol fel rhan o'r broses o hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg, a'i fod yn gallu ymateb yn rhagweithiol i anghenion y Gymru ddwyieithog sydd ohoni.

Wrth fynd ati i gyflawni hyn, bwriad y Gymdeithas yw cynrychioli'r rhan fwyaf o gyfieithwyr a chyfieithwyr ar y pryd Cymraeg/Saesneg, lleihau'r achosion lle gall unrhyw un ei (g)alw ei hun yn gyfieithydd, a gwella dealltwriaeth a gwybodaeth y rhai sy'n gyfrifol am gaffael gwasanaethau cyfieithu a rhoi'r sicrwydd iddynt y gallant ddisgwyl gwaith o safon.

Trwy roi grant blynyddol i'r Gymdeithas ers 1997 – yn uniongyrchol ers 2016 a thrwy law Comisiynydd y Gymraeg (2012-16) a Bwrdd yr Iaith Gymraeg cyn hynny – mae'r Llywodraeth wedi buddsoddi dros £1.7 miliwn yng ngwaith y Gymdeithas i ddatblygu, hyrwyddo a chryfhau'r diwydiant/proffesiwn cyfieithu Cymraeg/Saesneg: 'cefnogaeth barhaus' a gaiff ei chydabod yn 'Cymraeg 2050'.

Swyddfa newydd

Bu'n rhaid i'r Gymdeithas ddod o hyd i swyddfa newydd yn ysod haf 2019. Ers 17 Medi 2019 mae swyddfa'r Gymdeithas yn Intec, Parc Menai, ar gyrion Bangor.



Rhagair

Ychydig a feddylwn i pan oedd rhai o'm cyd-ddisgyblion yn ysgol gynradd Tan-y-coed, Penisa'rwaun, yn arfer gofyn i mi beth oedd y gair Cymraeg am hyn a'r llall, y byddai fy niddordeb yn fy mamiaith yn arwain at gyfle i wasanaethu fel Cadeirydd Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru.

Prin y gallwn i ddychmygu bryd hynny, chwaith, y byddai modd i gannoedd ohonom ddilyn galwedigaeth lawn amser fel cyfieithwyr yn ateb yr union fath hynny o gwestiynau ddegau o weithiau bob dydd. Ond dros y degawdau diwethaf mae rôl y cyfieithydd wedi dod yn fwy a mwy amlwg yng Nghymru, ac mae'n braf gweld y galw am ddeunydd Cymraeg yn cynyddu flwyddyn ar ôl blwyddyn.

Pleser o'r mwyaf, felly, yw cyflwyno'r adroddiad hwn i'n haelodau a'r sawl a fynno, gyda'r Gymdeithas unwaith eto wedi denu'r nifer uchaf o aelodau – 377 ar ddiwedd y flwyddyn dan sylw. Mewn cyfnod cynhyrfus yn wleidyddol, lle mae sylw manwl i ystyr amlwg (a chudd) pob gair mewn deunyddiau i sylw'r cyhoedd, mae'n galonidd bod corff fel y Gymdeithas yn bodoli er mwyn rhoi sicrwydd i gomisiynwyr cyfieithiadau ynghylch safon gwaith ein haelodau.

Fel aelodau, buom yn ffodus unwaith eto o gael cyfleoedd i hogi ein harfau a dysgu pethau newydd yn y gweithgareddau hyfforddiant a datblygu proffesiynol a drefnwyd gan y Gymdeithas. Diolch i'r rhai a lywiodd y sesiynau hynny, ac edrychwn ymlaen yr un mor ddiolchgar at ddarpariaeth eleni.

Wrth ymgymryd â'r gadeiryddiaeth, rydw i'n diolch i'm rhagflaenydd, Claire Richards, am lywio'r Gymdeithas drwy gyfnod o ansicrwydd ariannol i sefyllfa lawer cadarnach. Rydym yn ddiolchgar unwaith eto eleni i Lywodraeth Cymru am ddyfarnu grant sy'n rhoi'r sicrwydd ariannol i'r Gymdeithas allu cynnal rhaglen o weithgareddau buddiol ac adeiladol i aelodau a darpar aelodau.

Mae fy niolch pennaf i ac aelodau eraill Bwrdd y Cyfarwyddwyr i Geraint Wyn Parry a Nia Wyn Jones yn swyddfa'r Gymdeithas – y tîm bychan sy'n cyflawni gwaith mawr ar ein rhan. Dymunwn yn dda i'r ddau gyda'u gwaith unwaith eto eleni, yn enwedig wrth iddynt ddechrau gweithio mewn lleoliad newydd ar gyrion Bangor.

Wrth gyflwyno'r adroddiad ar weithgareddau'r Gymdeithas yn 2018-19, carwn ddiolch i bawb a fu'n rhan o bob agwedd ar waith y Gymdeithas – yn arholwyr, yn farcwyr, yn diwtoriaid, yn oruchwylwyr arholiadau a lluo o swyddogaethau eraill. Hyderaf y bydd eleni'n flwyddyn arall o gynnydd yn y byd cyfieithu Cymraeg, gyda'r Gymdeithas yn rhan annatod o hynny.

Huw Tegid Roberts
Cadeirydd



Cynnwys

| | |
|--|----|
| Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru | 1 |
| Rhagair gan y Cadeirydd | 2 |
| Cynnwys yr adroddiad | 3 |
| 1. Cyflwyniad i'r adroddiad | 4 |
| 2. Amcan strategol 1: Cynnal a chynyddu'r aelodaeth: Aelodaeth y Gymdeithas | 5 |
| 3. Amcan strategol 1: Cynnal a chynyddu'r aelodaeth: y drefn arholi | 8 |
| 4. Amcan strategol 2: Hybu datblygu proffesiynol | 12 |
| 5. Amcan strategol 3: Cynnal a meithrin cysylltiadau allweddol | 15 |
| 6. Amcan strategol 4: Codi proffil a hyrwyddo gwerthoedd proffesiynol | 18 |
| 7. Llywodraethiant a rheolaeth | 19 |
| Gair i gloi gan y Prif Weithredwr | 20 |



1. Cyflwyniad i'r Adroddiad

Mae'r Adroddiad ar weithgareddau 2018-19 Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru wedi ei baratoi i adlewyrchu amcanion strategol y Cynllun Strategol. Bydd y penodau sy'n dilyn yn adrodd ar gyflawni pedwar amcan strategol y Gymdeithas: cynnal a chynyddu'r aelodaeth, hybu datblygu proffesiynol, cynnal a meithrin cysylltiadau allweddol, a chodi proffil a hyrwyddo gwerthoedd proffesiynol; yn ogystal â threfniadau llywodraethiant a rheoli'r Gymdeithas.

Mae'r Cynllun Strategol yn hyrwyddo nod ac amcanion y Gymdeithas trwy adeiladu ar seiliau cadarn y gwaith a gyflawnwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ac yn caniatáu i'r Gymdeithas barhau ei chenhadaeth o ddatblygu'r proffesiwn/diwydiant cyfieithu Cymraeg/Saesneg ymhellach.

Roedd yr egwyddor graidd hon wrth wraidd yr hyn a gyflawnodd y Gymdeithas yn ystod 2018-19 wrth iddi barhau i gynnal a datblygu safonau cyfieithu proffesiynol a gwella, cynyddu a datblygu sgiliau a gwybodaeth cyfieithwyr.

Gwnaed hyn mewn sawl dull a modd, gan gynnwys:

- cynyddu nifer y cyfieithwyr y mae'n eu cynrychioli;
- cynnal arholiadau aelodaeth cyfieithu a chyfieithu ar y pryd;
- hybu datblygiad proffesiynol cyfieithwyr trwy drefnu rhaglen amrywiol o weithdai, ac annog a hyrwyddo datblygu proffesiynol parhaus;
- cynnal perthynas â sefydliadau Addysg Uwch, yn enwedig y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, a'r cyrsiau academaidd yn y maes;
- cynnal a meithrin ei chysylltiadau â chyrrff a sefydliadau eraill y tu mewn a'r tu allan i'r byd cyfieithu;
- hyrwyddo gwerthoedd proffesiynol y Gymdeithas, codi proffil cyfieithu proffesiynol a marchnata'i haelodau.

Rhydd yr adroddiad hwn drosolwg o weithgareddau 2018-19 a gwybodaeth am drefniadau llywodraethu ac ariannu'r Gymdeithas.

Wrth ddarllen yr adroddiad hwn fe'ch cynghorir yn gryf i ymweld â gwefan y Gymdeithas - <https://www.cyfieithwyr.cymru/cy> -- lle cewch wybod rhagor am y Gymdeithas a'r gweithgareddau a ddisgrifir yn yr adroddiad hwn.

Cafodd y Gymdeithas ei hariannu'n rhannol gan Lywodraeth Cymru yn 2018-19.



2. Amcan strategol 1:

Cynnal a chynyddu'r aelodaeth: aelodaeth y Gymdeithas

Nod yr amcan strategol hwn yw sicrhau y bydd y Gymdeithas yn cynrychioli mwy a mwy o gyfieithwyr, ac yn ymestyn ei dylanwad a'i heffaith trwy gynnal a datblygu safonau cyfieithu proffesiynol.

Sylwer, mae'r amcan strategol hwn yn ymwneud ag aelodaeth y Gymdeithas a'i threfn arholi. Rhennir y rhain yn ddwy adran: mae'r adran hon yn ymdrin â materion yn ymwneud a rheoli a gweinyddu'r aelodaeth, a bydd yr un nesaf yn ymdrin â'r drefn arholi.

Dim ond drwy lwyddo yn Arholiadau Aelodaeth Testun neu ym Mhrawf CAP y Gymdeithas y gellir dod yn aelod. Mae dwy lefel o aelodaeth i gyfieithwyr testun, Cyflawn a Sylfaenol. Un lefel o aelodaeth sydd i gyfieithwyr ar y pryd, a honno naill ai i'r Saesneg neu i'r Gymraeg. Dim ond unigolion all fod yn aelodau o'r Gymdeithas.

2.1 Aelodaeth y Gymdeithas

Ar 31 Mawrth 2019, roedd gan y Gymdeithas 377 o aelodau, y nifer uchaf erioed yn ei hanes, a dwsin yn fwy nag ar 31 Mawrth 2018, fel a ganlyn:

Aelodau Cyflawn: 205

Aelodau Sylfaenol: 154

Aelodau Cyfieithu ar y Pryd: 72*

* O'r 72 Aelod CAP, roedd 18 yn Aelodau CAP yn unig. Mae'r lleill naill ai'n Aelodau Cyflawn (44) ynteu'n Aelodau Sylfaenol (10) hefyd.

Mae pob un yn Aelod CAP i'r Saesneg, a 18 yn Aelodau CAP i'r Gymraeg.

Mae'r Gymdeithas yn cynrychioli pob agwedd ar gyfieithu proffesiynol Cymraeg/Saesneg. Roedd 37% o'r aelodau hyn yn gweithio yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector. O'r aelodau sy'n gweithio yn y sector preifat, roedd 43% ar eu liwt eu hunain a 20% yn gweithio i gwmnïau cyfieithu.

Mae blwyddyn aelodaeth y Gymdeithas yn dechrau ar 1 Ebrill. Gweithredir trefn gadarn a theg yn ystod Ebrill a Mai bob blwyddyn ar gyfer atgoffa ac ail-atgoffa aelodau i dalu'u tâl aelodaeth. O ganlyniad, dim ond enwau aelodau sydd wedi talu'u tâl aelodaeth am y blwyddyn sydd ar wefan y Gymdeithas.

Cynigir nifer o fuddion a gwasanaethau i'r aelodau, gan gynnwys bwletin newyddion rheolaidd, rhannu gwybodaeth berthnasol, rhoi gostyngiadau ar gyfer gweithdai a digwyddiadau'r Gymdeithas, cynnig presenoldeb i bob aelod ar wefan y Gymdeithas, a threfnu Diwrnod i'r Aelodau bob blwyddyn.

Am y tro cyntaf erioed, cyhoeddwyd Llawlyfr Aelodaeth a'i ddsbarthu i bob aelod. Y bwriad yw y bydd yn ateb y rhan fwyaf, os nad y cyfan, o'r cwestiynau a allai godi ynghylch aelodaeth o'r Gymdeithas.



Dyluniwyd logos newydd ar gyfer Aelodau Cyflawn ac Aelodau CAP, yn ogystal â'r Cwmnïau Cydnabyddedig a'r Sefydliadau Cydnabyddedig.

2.2 Ymddygiad proffesiynol

Wrth dalu eu tâl aelodaeth mae holl aelodau'r Gymdeithas yn gwybod bod disgwyl iddynt ymddwyn yn unol â'r Cod Ymddygiad Proffesiynol. Ynglwm wrth y Cod, mae gan y Gymdeithas drefn gwyno. Braff dweud na chafwyd yr un gŵyn yn erbyn aelod o'r Gymdeithas yn ystod y flwyddyn. Mae'r Gymdeithas hefyd yn cynnig Gwasanaeth Asesu Ansawdd Cyfieithiad, gwasanaeth y codir ffi amdano.

2.3 Cydnabod Meysydd Arbenigedd Proffesiynol

Trefn ar gyfer cydnabod Aelodau Cyflawn ac Aelodau CAP y Gymdeithas yn unig yw'r Maes Arbenigedd Proffesiynol. Mae gan y Gymdeithas dri Maes Arbenigedd Proffesiynol:

CAP yn y Llysoedd a'r Tribiwnlysoedd (a ddatblygwyd drwy ymgynghori â swyddogion Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi). Ar ddiwedd y flwyddyn roedd 24 Aelod CAP wedi cael y gymeradwyaeth hon. Mae disgwyl mai dim ond yr aelodau CAP hyn fydd yn cael eu galw i ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd mewn gwrandawriadau yn y llysoedd a'r tribiwnlysoedd.

Cyfieithu Deddfwriaethol (a ddatblygwyd drwy ymgynghori â swyddogion Gwasanaeth Cyfieithu Llywodraeth Cymru). Ar ddiwedd y flwyddyn roedd 11 Aelod Cyflawn wedi cael y gymeradwyaeth hon.

Cyfieithu Cyfathrebu. Ar ddiwedd y flwyddyn roedd 17 Aelod Cyflawn wedi cael y gymeradwyaeth hon.

Caiff yr aelodau hynny a lwyddodd yn y Prawf CAP yn yr Undeb Ewropeaidd yn 2009 hefyd eu cydnabod dan y drefn hon.

2.4 Cydnabyddiaeth i eraill

Mae'r Gymdeithas yn cydnabod cwmnïau cyfieithu trwy'r drefn **Cwmni Cydnabyddedig**. Yn ystod y flwyddyn rhoddwyd y gydnabyddiaeth i Atebol. Roedd 10 cwmni'n cael eu cydnabod yn Gwmni Cydnabyddedig.

Cynigir **cydnabyddiaeth i sefydliadau cyhoeddus ac yn y trydydd sector** fel rhai Cydnabyddedig neu Gyswllt, yn amodol ar fodloni meini prawf. Roedd 10 sefydliad yn cael eu cydnabod yn Sefydliad Cydnabyddedig a chwech yn Sefydliad Cyswllt.

Mae cydnabyddiaeth yn **Fyfyriwr Cyswllt** ar gael i fyfyrwyr sydd â'u bryd ar yrfa fel cyfieithwyr, ac yn fodd o annog a chefnogi myfyrwyr yn yr uchelgais hon. Cofrestrwyd wyth Myfyriwr Cyswllt newydd yn ystod y flwyddyn. Roedd 16 Myfyriwr Cyswllt wedi'u cofrestru. Mae'n braff nodi i bedair a oedd yn Fyfyriwr Cyswllt lwyddo yn yr Arholiadau Aelodaeth Testun yn ystod y flwyddyn a dod yn aelodau Sylfaenol.



Mae'r categori **Aelod sydd wedi ymddeol** yn un ar gyfer cyn-aelodau sydd am gadw cysylltiad â'r Gymdeithas wedi i'w hymwneud ffurfiol â'r Gymdeithas fel aelodau ddod i ben yn dilyn eu hymddeoliad. Roedd 24 o gyn-aelodau am gadw cysylltiad â'r Gymdeithas fel hyn.

Nid yw'r un o'r categorïau hyn o gydnabyddiaeth yn golygu bod yn aelod o'r Gymdeithas.



3. Amcan strategol 1:

Cynnal a chynyddu'r aelodaeth: y drefn arholi

Nod yr amcan strategol hwn yw sicrhau y bydd y Gymdeithas yn cynrychioli mwy a mwy o gyfieithwyr, ac yn ymestyn ei dylanwad a'i heffaith trwy gynnal a datblygu safonau cyfieithu proffesiynol.

Mae'r adran hon yn ymdrin â materion yn ymwneud â'r Arholiadau Aelodaeth Testun a'r Prawf CAP.

3.1 Yr Arholiadau Aelodaeth Testun

Cynhaliwyd yr Arholiadau Aelodaeth Testun ar y lefelau Cyflawn a Sylfaenol ym mis Ebrill 2018 ac ym mis Hydref 2018. Dyma ystadegau'r arholiadau:

| Cyfanswm yr holl ymgeiswyr [1] | Ebrill 2018 | | Hydref 2018 | |
|--------------------------------|-------------|-------------|-------------|-------------|
| | Ymgeiswyr | Llwyddo [2] | Ymgeiswyr | Llwyddo [3] |
| | 64 | | 37 | |
| Cyflawn | 23 | 9 | 14 | 5 |
| Papur 1: i'r Gymraeg | 19 | 6 | 12 | 4 |
| Papur 2: i'r Saesneg | 6 | 3 | 3 | 1 |
| Sylfaenol | 41 | 15 | 23 | 6 |
| Papur 1: i'r Gymraeg | 39 | 11 | 22 | 6 |
| Papur 2: i'r Saesneg | 21 | 9 | 6 | 1 |

Nodiadau

[1] Safodd rhai ymgeiswyr y ddau bapur

[2] Roedd 9 o'r ymgeiswyr llwyddiannus yn arholiadau Ebrill 2018 yn aelodau. Cymeradwywyd aelodaeth i'r 15 ymgeisydd arall, ac mae pob un ohonynt wedi ymaelodi â'r Gymdeithas.

[3] Roedd 4 o'r ymgeiswyr llwyddiannus yn arholiadau Hydref 2018 yn aelodau. Cymeradwywyd aelodaeth i'r 7 ymgeisydd arall, ac mae 3 ohonynt wedi ymaelodi â'r Gymdeithas cyn diwedd y flwyddyn aelodaeth.

Cynhaliwyd yr arholiadau yng Ngholeg Ceredigion, Aberystwyth, Prifysgol Caerdydd, a Choleg Meirion-Dwyfor, Glynllifon. Rydym yn ddiolchgar iawn i staff yn y sefydliadau hyn am eu cymorth a'u cydweithrediad parod. Hoffem hefyd ddiolch i'r arholwyr, y marcwyr a'r goruchwylwyr.

Cyflwynwyd newidiadau i'r **arholiadau ar y lefel Gyflawn** yn arholiadau mis Hydref 2018. Bwriad y newidiadau arwyddocaol hyn yw dangos yn fwy eglur fyth y gwahaniaeth rhwng y ddwy lefel. Yn wahanol i'r lefel Sylfaenol ble mae addewid yn bwysig, bydd y drefn Gyflawn newydd yn pwysleisio lefel broffesiynol uwch.



O hyn ymlaen, yn hytrach na rhoi graddau, bydd ymgeisydd yn llwyddo neu'n methu. Bydd pob ymgeisydd yn gorfod cyfieithu darn o ryw 300 gair yn eu hamser eu hunain yn ystod yr wythnos y cynhelir yr arholiadau ynddi, felly, yn yr arholiadau ar y lefel Gyflawn rhaid cyfieithu tri darn o waith. Bydd y llythyr dyfarniad yn cynnwys sylw byr am waith yr ymgeisydd a fydd yn crynhoi ei ymgais. Bydd yn rhaid i bob ymgeisydd nad yw'n aelod o'r Gymdeithas neu'n gweithio i Gwmni Cydnabyddedig neu i Sefydliad Cydnabyddedig gyflwyno geirada gan Aelod Gyflawn fel rhan o'r cais i sefyll yr arholiad(au).

Diben y trydydd darn, y darn 'gwaith cartref', yn anad dim, yw rhoi cyfle i'r ymgeiswyr ddangos eu gallu heb wynebu straen ystafell yr arholiad, a heb gael eu hamddifadu o'u ffynonellau arferol ar y we. Y disgwyl, felly, yn ddigon naturiol, yw bod y darn 'gwaith cartref' yn agos iawn at berffeithrwydd: ni ellir maddau llithriadau esgeulus ynddo. Gall amodau arholiad achosi rhai mân frychau hyd yn oed yng ngwaith ymgeiswyr cryf, felly mae'r darn gwaith cartref yn gyfle pwysig i ymgeiswyr ddangos eu doniau. Dylai pob ymgeisydd fanteisio ar hynny, fel bod modd i'r gwaith a wnaed ymlaen llaw weithio o'u plaid os digwydd bod eu sgript arholiad ar y ffin rhwng llwyddo a methu.

Fel bob amser, ar y lefel hon, roedd y darnau a ddewiswyd yn heriol, gan fod angen i'r ymgeiswyr ddangos eu gallu i ymdopi â chyfieithiadau o wahanol ddarnau, a hynny gan gynnwys safon broffesiynol angenrheidiol.

Er mai lleiafrif o'r ymgeiswyr a lwyddodd yn yr arholiadau Cyflawn, fel yn y gorffennol roedd safon y ceisiadau yn gyffredinol gryf ac roedd sawl un o fewn trwch blewyn i llwyddo. Gwelwyd enghreifftiau o gyfieithu da yng ngwaith pawb. Ni chafwyd yr un ymgeisydd gwan, a gellid tybio bod llwyddiant o fewn cyrraedd i bawb.

Yn ogystal â mân wallau esgeulus na ellir eu goddef ar y lefel hon ac a ddigwyddodd oherwydd diffyg gwirio a golygu'r gwaith cyn ei gyflwyno, gwallau ystyr a amharodd fwyaf ar y gwaith a gyflwynwyd a'i atal rhag cyrraedd y safon ofynnol. Ar y lefel hon, mae'n rhaid i ymgeiswyr sicrhau eu bod wedi cyfleu ystyr y gwreiddiol yn gywir. I wneud hyn rhaid mynd o dan groen y darn, fel petai, a gweld y tu hwnt i'r geiriau unigol, gan gyfleu neges a naws y gwreiddiol yn llwyddiannus yn yr iaith darged. Rhaid i'r gwaith ddarllen fel darn o Gymraeg neu Saesneg naturiol, ac mae hynny'n rhywbeth na ellir cyfaddawdu yn ei gylch ar y lefel Gyflawn.

Y brif anogaeth i ymgeiswyr ar y lefel hon yw eu bod, ar ôl gwirio eu bod wedi cyfleu ystyr y gwreiddiol yn gywir, yn darllen eu cyfieithiad fel petai'n ddarn cwbl annibynnol cyn ei gyflwyno. O wneud hynny, dylent ddod yn ymwybodol o'r manau lle mae arddull yr iaith wreiddiol yn rhy amlwg yn y cyfieithiad ac yn amharu arno. Pan fyddant wedi meistrolu cyfleu ystyr y gwreiddiol mewn Cymraeg naturiol, byddant wedi cyrraedd safon Aelodaeth Gyflawn.

Yn yr **arholiadau ar y lefel Sylfaenol**, er mai dim ond rhyw 30% o'r ymgeiswyr a fu'n llwyddiannus, gwelwyd tipyn o addewid. Llwyddodd sawl un i gyrraedd y safon mewn un darn, er eu bod heb allu cynnal y safon honno ar hyd y papur arholiad. Gellid dweud bod nifer fawr o ymgeiswyr yn amlwg yn deall beth yw safon Aelodaeth Sylfaenol ac yn agos iawn at gyrraedd y safon honno.



Cafwyd gan yr ymgeiswyr gorau enghreifftiau o gyfieithu llwyddiannus, effeithiol, oedd yn cyfleu ystyr y gwreiddiol ac yn dangos gafael cadarn a graenus ar yr iaith darged. Brafiawn hefyd oedd gweld sawl un yn cyflawni rhagoriaeth, yn enwedig yn y papur i'r Gymraeg ym mis Ebrill 2018.

Gwaetha'r modd, fodd bynnag, cafwyd hefyd nifer o gynigion lle roedd y gwaith a gyflwynwyd yn llawn gwallau a chamgymeriadau esgeulus megis camdreiglo a chamsillafu. Byddai mwyafrif llethol y gwallau hyn wedi cael eu hamlygu gan wirydd sillafu, a chan fod y cyfleuster hwnnw ar gael i bob ymgeisydd yn arholiadau'r Gymdeithas, rhaid holi o ddifri pam nad yw'r ymgeiswyr yn manteisio ar y cymhorthion sydd ar gael iddynt. Er bod modd maddau ambell lithriad bach o dan amodau arholiad, mae angen i gyfieithwyr feithrin y gallu i ddarllen eu gwaith yn fanwl, â llygad craff, er mwyn osgoi cyflwyno cyfieithiad sy'n cynnwys gwallau esgeulus. Unwaith eto, felly, rhaid tynnu sylw at fethiant ymgeiswyr i ddarllen eu gwaith yn ddigon gofalus cyn ei gyflwyno.

Yn anffodus hefyd, gwelwyd gwallau oedd yn awgrymu nad oedd ymgeiswyr wedi darllen y gwreiddiol yn ofalus cyn mynd ati i gyfieithu. Cofier y neilltuir pum munud cynta'r arholiad ar gyfer darllen y darnau cyn y caniateir i neb ddechrau teipio.

Siom hefyd, yn yr arholiadau i'r Gymraeg, oedd gweld ymgeiswyr yn cael trafferth gyda chystrawennau'r Gymraeg, ac yn mynd ati'n llafurus i gyfieithu'r gwreiddiol fesul gair, yn hytrach na dadansoddi'r ystyr a'i gyfleu mewn ffordd fwy naturiol Gymreig. Wrth gyfieithu, rhaid cyfleu ystyr y gwreiddiol yn gywir, wrth gwrs, ond mae'n rhaid gwneud hynny mewn modd naturiol i'r iaith darged, ac mae hynny'n aml yn golygu bod rhaid 'dadbacio' rhywfaint ar yr ystyr, yn hytrach na chyfieithu'n slafaid.

Y neges i'r holl ymgeiswyr, yn rhai llwyddiannus ac aflwyddiannus, p'un ai i'r Gymraeg neu i'r Saesneg, fyddai y dylent fynd ati o ddifri i ddadansoddi eu gwaith cyfieithu a threiddio o dan yr wyneb i gael hyd i'r ystyr a'r neges waelodol. Dylai pawb ohonynt hefyd fanteisio ar bob cyfle i gryfhau eu sgiliau ymhellach a manteisio ar bob cyfle i ddarllen Cymraeg a Saesneg graenus er mwyn ymgyfarwyddo ymhellach â phatrymau'r ddwy iaith.

Ar derfyn pob rownd o arholiadau cyhoeddir Adroddiad y Prif Arholwr ar wefan y Gymdeithas. Mae'r adroddiadau hyn yn amlygu'r cyfieithu llwyddiannus ac aflwyddiannus a welwyd yn y sgrïptiau arholiad, ac yn cynnig sylwadau adeiladol, cynghorion buddiol ac anogaeth i ymgeiswyr ac eraill ynghylch sut y gallant wella'u cyfieithu. Hefyd, gall unrhyw ymgeisydd, p'un a yw wedi llwyddo neu fethu, ofyn am adroddiad unigol ar ei bapur arholiad. Ystyriwn fod gwerth mawr i'r adroddiadau hyn fel rhan o ddatblygiad proffesiynol cyfieithwyr, yn ogystal â chynnig trosolwg o'r gwendidau cyffredin a welir wrth gyfieithu.

Mae'r Gymdeithas yn cynnig dwy wobwr yn flynyddol i'r ymgeiswyr mwyaf addawol am Aelodaeth Sylfaenol os bernir bod teilyngdod: **Gwobr Goffa Wil Petherbridge** (cyfieithu i'r Gymraeg) a roddir er cof am gyn-Ysgrifennydd y Gymdeithas ac arloeswr ym myd cyfieithu yng Nghymru, a **Gwobr Berwyn** (cyfieithu i'r Saesneg) er anrhydedd i Berwyn Prys Jones a fu'n Gadeirydd y Gymdeithas am y rhan helaethaf o'i bodolaeth. Cerys Davey oedd enillydd Gwobr Goffa Wil Petherbridge a dyfarnwyd Gwobr Berwyn i Ioan Davies. Mae'r ddau yn gweithio i Prys, Caerdydd, lle cynhaliwyd seremoni i gyflwyno'r gwobrau i'r ddau ohonynt.



Cynhaliwyd y diwrnod blynyddol o **hyfforddiant i aelodau'r Gofrestr Marcwyr**. Roedd y pwyslais ar lunio'r adroddiadau unigol sy'n rhan mor bwysig o'r drefn arholi. Caiff y rhain eu cyflwyno bellach ar ffurf templed cyffredin newydd. O ganlyniad bu newidiadau yn yr amserlen a'r trefniadau cyffredinol ar gyfer hyn.

3.2 Y Prawf CAP

Cynhaliwyd Prawf CAP i'r Saesneg a Phrawf CAP i'r Gymraeg, ym mis Mawrth 2019.

Cafwyd saith ymgeisydd ar gyfer y **Prawf CAP i'r Saesneg**, dau yn y Groeslon a phump yng Nghaerdydd.

Drwyddi draw, roedd y safon yn well na'r hyn a welwyd mewn Profion CAP diweddar i'r Saesneg. Dangosodd bob un o'r ymgeiswyr addewid gyda'r cryfaf yn eu plith yn cyfieithu'n eglur ac ystwyth mewn Saesneg naturiol ac idiomatig. Nid oedd y gwendidau ym maes cystrawen ac idiom mor amlwg eleni. Ar y cyfan, roedd yr eirfa'n foddhaol a gwnaed defnydd effeithiol o'r wybodaeth gefndir a ddarparwyd. Fodd bynnag, cafwyd sawl enghraifft o gam-gyfieithu geiriau cymharol sylfaenol. Llwyddodd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr i gyfleu natur y drafodaeth yn effeithiol gan ddehongli ac egluro cymalau a oedd yn aneglur eu hystyr yn y gwreiddiol.

Dyfarnwyd bod pump o'r saith ymgeisydd yn llwyddo. Ym marn yr aseswyr, roedd i bob ymgeisydd ei rinweddau ac anogir y rhai a fu'n aflwyddiannus i fwrw ati i ymarfer ac ennill mwy o brofiad cyn rhoi cynnig arall arni yn y dyfodol.

Llwyddodd yr unig ymgeisydd a gafwyd ar gyfer y **Prawf CAP i'r Gymraeg** (yng Nghaerdydd). Roedd yr aseswyr yn gytûn eu barn bod safon yr ymgeisydd yn uchel a'i bod yn bleser gwrando arno'n cyfieithu. Er mai rhywbeth y gofynnir amdano'n weddol anaml yw cyfieithu ar y pryd i'r Gymraeg, cafwyd cais diogel iawn.

Roedd gan yr ymgeisydd afael arbennig ar y Gymraeg, ac roedd yn ymwybodol iawn o bwysigrwydd cyfleu'r gwreiddiol mor agos a chywir ag y gallai. Roedd yr eirfa ar flaen ei fysedd a thrwy hyn llwyddodd i gyfleu hyder ac elfen o reolaeth dros y sefyllfa. Defnyddiodd ramadeg a chystrawen raenus gan fynegi'r testun yn glir, ac ymadroddion naturiol. Amrywiwyd tîon y llais yn briodol, a gwelwyd ymdrech i wahaniaethu rhwng y siaradwyr hyd yn oed pan oedd sawl un yn siarad ar draws ei gilydd.

Mreiniwyd rhywfaint ar **y drefn asesu** CAP trwy leihau'r meini prawf o wyth i bump. Defnyddiwyd y dull newydd hwn am y tro cyntaf wrth asesu Profion CAP mis Mawrth 2019.

Cynhaliwyd y ddau Prawf CAP yn stiwdios sain proffesiynol Stiwdio Aran, Groeslon, ger Caernarfon, a CTV Sound Studios, Caerdydd. Rydym yn ddiolchgar iawn i staff yn y ddwy stiwdio am eu cymorth a'u cydweithrediad parod. Hoffem hefyd ddiolch i'r arholwyr a'r aseswyr.

Fel yn achos yr arholiadau, ar derfyn pob Prawf CAP cyhoeddir adroddiad cyffredinol ar wefan y Gymdeithas, a gall unrhyw ymgeisydd, p'un a yw wedi llwyddo neu fethu, ofyn am adroddiad unigol ar ei ymgais yn y Prawf CAP.



4. Amcan strategol 2: Hybu datblygu proffesiynol

Nod yr amcan strategol hwn yw sicrhau cyfleoedd i gyfieithwyr a chyfieithwyr ar y pryd a fydd yn eu helpu i wella, cynyddu a datblygu eu sgiliau a'u gwybodaeth. Bydd hyn yn fodd o hyrwyddo sgiliau proffesiynol a chyflogadwyedd yr aelodau.

Roedd y gweithgareddau i hybu datblygu proffesiynol yn amrywiol, ac yn cynnwys gweithdai, yr e-weithdy cyfieithu, y ddarlith flynyddol, a Diwrnod i'r Aelodau.

Fel yn y gorffennol, cafwyd ymateb cadarnhaol iawn i'r agwedd hon ar waith y Gymdeithas, arwydd sicr fod galw am weithdai a bod angen rhagor o weithgareddau hyfforddi. Mae darpariaeth y Gymdeithas yn y maes hwn yn llenwi bwlch pwysig serch nad yw'r ddarpariaeth hon mor helaeth ag yr arferai fod. Roedd y rhai a fanteisiodd ar y cyfleoedd hyn yn gweithio yn y sector cyhoeddus, mewn cwmnïau cyfieithu preifat neu ar eu liwt eu hunain. Mae hyn yn arwydd clir fod cyfieithwyr ar draws y proffesiwn/diwydiant yn ei gyfanrwydd yn gweld gwerth mewn buddsoddi yn eu datblygiad proffesiynol. Roedd sawl un a oedd yn ystyried gyrfa fel cyfieithydd hefyd ymhlith y rhai a gymerodd ran yn yr hyfforddiant.

4.1 Gweithgareddau hyfforddi

Trefnwyd tri **gweithdy wyneb yn wyneb** yn ystod y flwyddyn. Gan ddilyn y patrwm a fabwysiadwyd ers sawl blwyddyn, fe'u cynhaliwyd mewn mwy nag un lleoliad er mwyn eu gwneud mor hygyrch â phosib i gyfieithwyr ym mhob rhan o Gymru. Y gweithdai a gynhaliwyd oedd:

- 'Golygu a gwirio cyfieithiadau'. Y tiwtor oedd Marian Beech Hughes. Fe'i cynhaliwyd yn Galeri Caernarfon (2 sesiwn y daeth 17 iddynt), swyddfa WCVA Aberystwyth (y daeth 11 iddo), a'r Hen Lyfrgell, Caerdydd (3 sesiwn y daeth 40 iddynt).

- 'Is-goch neu radio: dyfodol offer CAP', dan arweiniad Philip Nicholes, Sound Induction Systems, y Drenewydd. Fe'i cynhaliwyd yn Galeri Caernarfon (y daeth 7 iddo), a swyddfa WCVA, Caerdydd (y daeth 8 iddo).

- 'Craffu a Datrys'. Menna Wyn oedd y tiwtor. Fe'i cynhaliwyd yn Yr Hen Lyfrgell, Caerdydd (2 sesiwn y daeth 31 iddynt), Galeri Caernarfon (y daeth 13 iddo), a Phrifysgol Aberystwyth (y daeth 6 iddo).

Parhaodd poblogrwydd yr **e-weithdy cyfieithu** fel dull effeithiol o ddysgu ac o gynnig hyfforddiant i bobl yn eu hamser eu hunain, ond o fewn amserlen a strwythur. Cynigir yr e-weithdy cyfieithu ar lefelau Cyflawn a Sylfaenol ar wahân.



Yn yr e-weithdy cyfieithu bydd rhywun yn cyfieithu dau ddarn o'r un hyd a safon â darnau'r arholiad perthnasol, ac yn cael sylwadau ar eu cyfieithiadau gan diwtor sy'n gyfieithydd profiadol ac yn aelod o Gofrestr Marcwyr arholiadau'r Gymdeithas. Cynhaliwyd pedwar e-weithdy cyfieithu yn ystod y flwyddyn, dau ar y lefel Gyflawn a dau ar y lefel Sylfaenol. Ar y lefel Gyflawn, cymerodd 13 unigolyn ran ynddo (14 i'r Gymraeg ac 2 i'r Saesneg). Ar y lefel Sylfaenol, cymerodd 39 unigolyn ran ynddo (35 i'r Gymraeg ac 11 i'r Saesneg).

Cynhaliwyd y **Ymarfer CAP** ddwywaith. Rhydd yr Ymarfer CAP gyfle i rywun gyfieithu dau ddarn o'r un hyd a safon ag a geir ym Mhrawf CAP y Gymdeithas, a chael sylwadau ar eu cyfieithiadau gan diwtor sy'n gyfieithydd ar y pryd profiadol ac yn un o aseswyr Prawf CAP y Gymdeithas. Cânt gyfle yn ogystal i ymgyswngwyo â lleoliad ac amgylchiadau'r Prawf CAP. Cymerodd 10 ran yn yr Ymarfer CAP i'r Saesneg a dau i'r Gymraeg.

Ymatebwyd i geisiadau am **hyfforddiant wedi'i deilwra** at anghenion penodol y sefydliad a wnaeth y cais. Trefnwyd hyfforddiant i gyfieithwyr UCM Cymru (2), Golygyddion 'Y Cofnod' (20), Cyllid a Thollau EM (7), a Phrifysgol Abertawe (6).

Lluniwyd dau **Ymarfer ar y lefel Sylfaenol** i'w gosod ar wefan y Gymdeithas yn dilyn arholiadau mis Ebrill 2018 a mis Hydref 2018, un bob un i'r Gymraeg a'r Saesneg.

4.2 Balchder Crefft: Datblygu Proffesiynol Parhaus, ei fanteision

Cyhoeddwyd fersiwn newydd o gynllun Datblygu Proffesiynol Parhaus (DPP) y Gymdeithas, sef 'Balchder Crefft: Datblygu Proffesiynol Parhaus, ei fanteision'. Mae'n cyfuno'r ddwy ddogfen a gyhoeddwyd eisoes: 'Balchder Crefft' (Medi 2014) a 'Datblygu Proffesiynol Parhaus, ei fanteision' (Mawrth 2016) ac yn eu disodli.

Bwriad y ddogfen hon yw cynnig canllaw hwylus a fydd yn helpu ac yn annog aelodau'r Gymdeithas i ystyried pwysigrwydd DPP ac i lunio cynllun DPP personol. Bydd hefyd yn cynnig arweiniad i aelodau ynghylch pa weithgaredd DPP, a faint ohono, sydd fwyaf addas a pherthnasol i'w anghenion a'u dyheadau. Gall pob aelod gofnodi ei weithgarwch DPP yn ei Gofnod Aelodaeth ar wefan y Gymdeithas, cofnod y gall yr aelod ei hun a staff y Gymdeithas yn unig ei weld.

Cymerwyd rhan mewn arolwg ar-lein gan FIT Europe, arolwg ynghylch DPP a oedd yn casglu gwybodaeth er mwyn dysgu beth oedd yn digwydd mewn gwahanol gymdeithasau cyfieithu proffesiynol yn Ewrop. Mae'r prosiect yn parhau.

4.3 Diwrnod i'r Aelodau 2018

Cynhaliwyd y Diwrnod i'r Aelodau ddydd Gwener, 28 Medi 2018, yn Chapter, Caerdydd. Roedd y rhaglen yn cynnwys cyflwyniad gan y Cynulliad Cenedlaethol ar lunio'r 'Cofnod', yr heriau a wynebodd cyfieithwyr yr Asiantaeth Safonau Bwyd wrth gyfieithu'r wefan, cyflwyniad i Wici Cymru a'i bwysigrwydd, a Slam Cyfieithu, o dan gadeiryddiaeth David Bullock. Cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol 2018 hefyd. Roedd 35 o aelodau'n bresennol.



4.4 Darlith Goffa Hedley Gibbard

Dylan Foster Evans, o Brifysgol Caerdydd, a draddododd Ddarlith Goffa Hedley Gibbard 2018 yn ystod yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghaerdydd. Ei destun oedd 'Cyfieithu, cyfaddasu a disodli: y berthynas rhwng enwau lleoedd Cymraeg a Saesneg yng Nghaerdydd'.



5. Amcan strategol 3:

Cynnal a meithrin cysylltiadau allweddol

Nod yr amcan strategol hwn yw cynnal a datblygu perthynas y Gymdeithas â gwahanol gyrff a sefydliadau, a meithrin partneriaethau allweddol. Bydd y rhain yn gyrff a sefydliadau y tu mewn a'r tu allan i'r byd cyfieithu, yng Nghymru a'r tu hwnt. Wrth wneud hyn, gallwn fod yn eiriol dros y Gymdeithas a'r proffesiwn/diwydiant cyfieithu Cymraeg/Saesneg mewn mannau dylanwadol, yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth gyrff a sefydliadau o werth a mantais defnyddio'r Gymraeg.

5.1 Cyrff a sefydliadau yn y byd cyfieithu

Cafodd y Prif Weithredwr gyfarfodydd â phenaethiaid cwmnïau cyfieithu ac unedau cyfieithu mewn sefydliadau cyhoeddus. Roedd y cyfarfodydd hyn yn gyfle i gyfnewid gwybodaeth am y naill a'r llall, ac i drafod ac egluro gwaith a gwasanaethau'r Gymdeithas a manteision hynny i'r cwmni/sefydliad ac i'w gyfieithwyr. Ar eu cais, rhoddwyd cyngor a gwybodaeth benodol i rai sefydliadau.

Parhaodd y Gymdeithas i gynnal ei pherthynas a'i chysylltiadau â chymdeithasau a chyrrff cyfieithu, yn eu plith Institute of Translators and Interpreters (ITI), grŵp ITI Cymru/Wales, Chartered Institute of Linguists, a'r National Register of Public Service Interpreters.

Mae'r Gymdeithas yn aelod o Professional Interpreters for Justice (PI4J), grŵp ymbarél a chanddo'r nod o gynrychioli buddiannau cyfieithwyr ar y pryd yn y sector cyhoeddus, yn arbennig y sector cyfiawnder. Caiff y Gymdeithas ei chynrychioli ar y Pwyllgor Llywio gan y Prif Weithredwr.

Bu David Bullock yn cynrychioli'r Gymdeithas ar banel trafod yng nghynhadledd Association of Translation Companies (ATC) a gynhaliwyd yng Nghaerdydd ym mis Medi 2018.

Mae'r Gymdeithas yn aelod o FIT (Fédération Internationale des Traducteurs / International Federation of Translators), sef y gymdeithas ryngwladol sy'n cynrychioli buddiannau cymdeithasau cyfieithu proffesiynol.

5.2 Sefydliadau Addysg Uwch

Mae'r Gymdeithas yn aelod o Gonsortiw Astudiaethau Cyfieithu'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol a chaiff ei chynrychioli gan y Prif Weithredwr. Bwriad y Consortiw yw cadw trosolwg strategol ar y ddarpariaeth academiaidd a ddarperir gan gynllun Astudiaethau Cyfieithu Proffesiynol Prifysgol Aberystwyth a Thystysgrif Ôl-raddedig mewn Cyfieithu ar y Pryd Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant. Mae'r Consortiw yn cynnig arweiniad a chynghor er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth academiaidd yn adlewyrchu anghenion hyfforddi'r proffesiwn/diwydiant cyfieithu, yn ogystal â'r safon a'r rhychwant sgiliau angenrheidiol sydd yn ddisgwyliedig gan gyfieithydd proffesiynol ar ddechrau ei yrfa.



Yn ystod ail hanner y flwyddyn cyfrannodd y Gymdeithas at yr adolygiad o'r cynllun hwn a gynhaliwyd gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Yn ail gynhadledd cynllun Astudiaethau Cyfieithu Proffesiynol Prifysgol Aberystwyth, 'Gwthio Ffiniau Cyfieithu', cyflwynodd y Gymdeithas ficro weithdy cyfieithu dan arweiniad Menna Wyn, ac roedd y Prif Weithredwr yn aelod o'r Panel Holi. Yn ystod y flwyddyn bu Prif Arholwr y Gymdeithas, Fiona Gannon, yn cynnal sesiwn fel rhan o'r cwrs.

Cyfrannodd y Gymdeithas at y broses o ail-ddilysu Tystysgrif Ôl-raddedig CAP Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant. Parhaodd y Gymdeithas i roi ei chefnogaeth lawn i'r cynllun i greu llwyfan/gwefan ar gyfer hyfforddi CAP, cynllun a gyllidir gan Lywodraeth Cymru. Rhoddwyd cyn ddarnau'r Prawf CAP a darnau ar gyfer ymarfer a gasglwyd dros y blynyddoedd i'w defnyddio ar y llwyfan/gwefan.

Cynigiodd y Gymdeithas wobrau o'r Gronfa Sbarduno i fyfyrwyr mwyaf addawol y flwyddyn ar y ddau gwrs. Yr enillwyr oedd Rhian Jones, sy'n gyfieithydd dan hyfforddiant yng Nghyngor Sir Gâr (Prifysgol Aberystwyth) a Rhidian Jones, a oedd ar y pryd yn gyfieithydd yng Nghyngor Sir Gâr, ond sydd bellach yn gyfieithydd yng Nghyngor Ceredigion (y Dystysgrif Ôl-raddedig CAP).

5.3 Cyrff a sefydliadau yng Nghymru

Roedd y gwahoddiad i'r Prif Weithredwr annerch y **Seminar Cymraeg i'r Barnwyr** ym mis Mawrth 2019 yn gyfle i olrhain y gwaith a wnaed mewn partneriaeth ag Uned Iaith Gymraeg Gwasanaeth y Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM ac â'r farnwriaeth drwy'r Barnwyr Cyswllt ers 2008, sef egluro'r trefniadau a sefydlwyd er mwyn sicrhau'r safonau proffesiynol uchaf wrth ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd Cymraeg/Saesneg yn y llysoedd a'r tribiwnlysoedd yng Nghymru. Mae'r drefn hon yn un a gaiff ei chydabod gan y farnwriaeth Gymraeg i fod o safon uchel ac yn ddibynadwy a chywir. Bu i'r Barnwr Niclas Parry gyfeirio at hynny yn ystod yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghaerdydd.

Mae'r Gymdeithas yn aelod o **Grŵp Hyrwyddo'r Gymraeg**, a gaiff ei gydlynw a'i weinyddu gan Uned y Gymraeg Llywodraeth Cymru. Caiff y Gymdeithas ei chynrychioli gan y Prif Weithredwr.

Cafwyd cyfarfodydd â staff **Comisiynydd y Gymraeg** i drafod materion yn ymwneud â chyfieithu. O ganlyniad i hyn mae Cofnod Aelodaeth aelodau CAP sydd ar gael i weithio y tu allan i oriau gwaith arferol yn nodi hynny. Wrth anfon sylwadau ar y copi drafft o'r Nodyn Cyngor CAP, gofynnwyd am arweiniad clir a datganiad diamwys gan y Comisiynydd ynghylch pryd y dylid darparu gwasanaeth CAP i'r Gymraeg.

Parhaodd y Gymdeithas i fod yn un o bartneriaid **yr Her Gyfieithu i'r Gymraeg**, cystadleuaeth a drefnir gan Gyfnewidfa Lên Cymru mewn cydweithrediad â Wales PEN Cymru. Y Gymdeithas, unwaith yn rhagor, a noddodd Ffon yr Her Gyfieithu o waith Elis Gwyn, Llanystumdwy. Enillydd Her Gyfieithu 2018 oedd Llewelyn Hopwood o Gaerfyrddin.



Ar y cyd â'r Urdd cynhaliwyd **y gystadleuaeth cyfieithu i'r oedran 19-25 yn Eisteddfod yr Urdd**. Yr enillydd oedd Ciaran Eynon, Aelod Unigol, Cylch Bro Dulas. Ei wobwr oedd treulio diwrnod yng Ngwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi'r Cynulliad Cenedlaethol, sef y partner arall yn y gystadleuaeth.

Adolygwyd y **cynnig cyfieithu i aelodau WCVA** gan aelodau'r Gymdeithas. Mae 76 o aelodau Cyflawn a Sylfaenol a 22 o aelodau CAP wedi nodi eu bod yn fodlon cynnig eu gwasanaeth am bris gostyngol.

Mae'r Gymdeithas yn aelod o: Dathlu'r Gymraeg, Dyfodol i'r Iaith, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, a Mantell Gwynedd.

5.4 Ymatebion i ymgynghoriadau ac ati

Canolbwyntiodd yr ymateb i Bapur Gwyrdd Llywodraeth Cymru, 'Cryfhau Llywodraeth Leol: Cyflawni dros ein Pobl', ar swyddogaeth bwysig cyfieithu yng ngweinyddiaeth awdurdodau cyhoeddus a sut y gallai'r cynlluniau arfaethedig ynddo gynnig cyfle i sefydlu unedau cyfieithu cryf a strwythuredig, unedau a fyddai'n defnyddio safonau proffesiynol y Gymdeithas yn sail iddynt. Anfonwyd copi o'r ymateb hwn at Dyfodol i'r Iaith ar gyfer ei bapur arfaethedig ar Gymreigio gweithlu a gweinyddiaeth llywodraeth leol.

Wrth gyflwyno tystiolaeth i'r Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru, darparwyd gwybodaeth am yr hyn y mae'r Gymdeithas, mewn partneriaeth ag Uned Iaith Gymraeg Gwasanaeth Llysoedd a Thriwlynlysoedd EM a'r Barnwyr Cyswllt, wedi ei wneud i sicrhau trefn a safon broffesiynol wrth ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd Cymraeg/Saesneg yn y llysoedd a'r triwlynlysoedd yng Nghymru.

Roeddem yn falch o ddarllen yn Adroddiad Blynyddol 2017-18 Cynllun leithoedd Swyddogol Cynulliad Cenedlaethol Cymru am y ganmoliaeth i safon gwasanaethau cyfieithu testun a chyfieithu ar y pryd y sefydliad, a'r bwriad i flaenoriaethu adnoddau a buddsoddiad er mwyn cynnal y safonau uchel hyn. Ond, roeddem yn fwy gochelgar wrth weld eu bod yn ystyried eu polisi i ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd i'r Gymraeg. Yn gyffredinol, nid oedd gennym unrhyw dystiolaeth y bu cynnydd yn y galw am wasanaeth CAP i'r Gymraeg, nac y bydd cynnydd yn fuan, felly, heb ragolygon gwaith realistig ni ragwelwn y bydd nifer fawr o gyfieithwyr ar y pryd am ddilyn y trywydd hwn.

Wrth groesawu gweledigaeth y 'Cynllun technoleg a'r Gymraeg', a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Hydref 2018, roedd y Gymdeithas yn falch o weld fod cyfieithu â chymorth cyfrifiadur, sef yr angen i sicrhau systemau cyfieithu peirianyddol a manteisio i'r eithaf ar dechnoleg cof cyfieithu, yn un o'r tri maes penodol y bydd y cynllun yn mynd i'r afael â hwy. Technoleg Lleferydd Cymraeg a Deallusrwydd Artiffisial Sgwrsiol yw'r ddau faes penodol arall, meysydd y gallai'r proffesiwn cyfieithu elwa ohonynt. Bwriada'r Gymdeithas gefnogi amcanion y cynllun hwn.



6. Amcan strategol 4:

Codi proffil a hyrwyddo gwerthoedd proffesiynol

Nod yr amcan strategol hwn yw codi proffil y Gymdeithas, hybu ein gwerthoedd proffesiynol, hyrwyddo gwasanaethau proffesiynol ein haelodau, a marchnata gweithgareddau a gwasanaethau'r Gymdeithas.

Bwriad y gweithgareddau marchnata a chyfathrebu, wrth gefnogi a hyrwyddo nod ac amcanion y Gymdeithas, oedd creu perthynas gadarnhaol â'r gwahanol garfanau y mae angen i'r Gymdeithas ymgysylltu â hwy, sef ei haelodau, darpar aelodau, cyfieithwyr eraill, sefydliadau a chyrff, comisiynwyr cyfieithu, ac eraill y tu allan i'r byd cyfieithu (megis gwleidyddion a sefydliadau). Bydd y gweithgareddau hyn hefyd yn fodd o dynnu sylw at swyddogaeth y Gymdeithas fel y corff proffesiynol i gyfieithwyr Cymraeg/Saesneg, ac i sicrhau proffil uchel i bob agwedd ar waith y Gymdeithas.

Mae gwefan y Gymdeithas - <https://www.cyfieithwyr.cymru/cy> - yn ganolog i weithgarwch marchnata a chyfathrebu'r Gymdeithas. Dyma'r unig le yn y byd i chwilio am wybodaeth am y byd cyfieithu Cymraeg.

I'r rhai sy'n chwilio am gyfieithydd neu gyfieithydd ar y pryd, mae gwasanaeth ar y wefan sy'n hwylus ac yn hawdd ei ddefnyddio i ddod o hyd i gyfieithydd, a hynny'n rhad ac am ddim. Mae'r gwasanaeth hwn yn cynnwys Cofnod Aelodaeth pob aelod sydd wedi rhoi ei ganiatâd i'r wybodaeth amdano ymddangos ar y wefan.

Mae'r wefan hefyd yn cynnwys gwybodaeth ac adnoddau y mae eu hangen ar gyfieithwyr ac unigolion sydd â'u bryd ar fod yn aelodau o'r Gymdeithas, gan gynnwys gwybodaeth am weithdai, cyn-bapurau arholiad ac adroddiadau'r Prif Arholwr, yr Ymarferion, a phob math o adnoddau defnyddiol megis geiriaduron a rhestrau termau. Mae'r wefan hefyd yn cynnwys tudalen Newyddion a thudalen Swyddi (ar gyfer swyddi cyfieithu yn unig).

Hefyd, er mwyn tynnu sylw at weithgareddau'r Gymdeithas, defnyddiwyd cyfrif 'Twitter' y Gymdeithas - @cyfieithwyr - a gosodwyd hysbysebion yn y wasg.



7. Llywodraethiant a rheolaeth

7.1 Rheoli'r Gymdeithas

Mae Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru Cyf. yn gwmni cyfyngedig trwy warant. Fe'i corfforwyd yn 2003 o dan yr enw hwn yn unig. Rhif cofrestredig y cwmni yw 4741023. Cyfeiriad y swyddfa gofrestredig ers 23 Medi 2019 yw Intec, Parc Menai, Bangor, LL57 4FG. Prif Weithredwr y Gymdeithas, Geraint Wyn Parry, yw Ysgrifennydd y Cwmni.

Rheolir y Gymdeithas gan Fwrdd y Cyfarwyddwyr a etholir o blith holl aelodau'r Gymdeithas. Ar 31 Mawrth 2019, aelodau Bwrdd y Cyfarwyddwyr oedd: David Bullock, Mari Lisa Davies, Bethan Mair Evans, Fiona Gannon, Steffan Gealy, Hywel Gwynn Hughes, Catherine Jones, Mary Jones, Hywel Pennar, Ifan Prys, Claire Richards, Huw Tegid Roberts.

Ymdeolodd Claire Richards fel Cadeirydd yn ystod y flwyddyn ac etholwyd Huw Tegid Roberts i'r swydd.

Cyfarfu Bwrdd y Cyfarwyddwyr ar 19 Gorffennaf 2018, 8 Ionawr 2019 a 26 Mawrth 2019.

Cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol y Gymdeithas ar 28 Medi 2018 yn Chapter, Caerdydd.

Mae gan y Gymdeithas dri Bwrdd/Pwyllgor arall, sef y Bwrdd Arholi Testunau (y mae iddo dri aelod craidd, sef y Prif Arholwr a'r ddau ddirprwy, ynghyd â marcwyr y rownd honno o arholiadau a ddewisir o blith y Gofrestr Marcwyr), y Bwrdd Cyfieithu ar y Pryd (y mae iddo dri aelod craidd, sef y Prif Arholwr a'r dirprwy, ynghyd ag aseswyr y prawf CAP hwnnw a ddewisir o blith y Gofrestr Aseswyr CAP), a'r Pwyllgor Aelodaeth a Safonau Proffesiynol.

Fiona Gannon yw Prif Arholwr y Gymdeithas ac mae ganddi gyfrifoldeb am yr Arholiadau Aelodaeth Testun a'r Prawf CAP.

7.2 Y sefyllfa ariannol

Cafwyd grant o £50,000 gan Lywodraeth Cymru tuag at ariannu rhai o weithgareddau'r Gymdeithas y cytunwyd arnynt mewn set o dargedau.

Y brif ffynhonnell arall o incwm i'r Gymdeithas oedd y taliadau aelodaeth, sef £55,073.

Roedd yr incwm a gafwyd yn fodd i'r Gymdeithas barhau i gyflogi dau aelod staff amser-llawn, yn ogystal â chyflawni'r gwaith a ddisgrifir yn yr adroddiad hwn.

Dengys y cyfrifon fod gan y Gymdeithas gronfa o £153,850 ar ddiwedd y flwyddyn.

Paratowyd yr Adroddiad Ariannol (heb archwiliad) gan Owain Bebb a'i Gwmni, Caernarfon. Cafodd y datganiadau ariannol eu paratoi yn unol â FRS 102, Rhan 1A.



Gair i gloi gan y Prif Weithredwr, Geraint Wyn Parry

Unwaith eto, hoffwn ddatgan fy niolch a'm gwerthfawrogiad i Nia Wyn Jones am ei gwaith caled a'i hymroddiad i'r Gymdeithas. Hi sy'n gyfrifol am waith creiddiol y Gymdeithas, sef trefnu a gweinyddu'r drefn arholi, heb sôn am gadw golwg ar y materion ariannol o ddydd-i-ddydd!

Ym mis Ionawr 2019 rhoddodd Claire Richards y gorau i fod yn Gadeirydd wedi tair blynedd yn cyflawni'r swyddogaeth honno. Hoffwn ddiolch o galon iddi am ei chefnogaeth barhaus, ei chynngor doeth a'i harweiniad effeithiol.

Yn ei lle etholwyd Huw Tegid Roberts ac o'r dechrau'n deg bu'r cydweithio rhyngom yn rhwydd a didrafferth.

Gaf fi hefyd ddiolch i holl aelodau Bwrdd y Cyfarwyddwyr am eu doethineb wrth gyflawni eu gwaith, ac am eu ffyddlondeb i gyfarfodydd y Bwrdd.

Mae Fiona Gannon, ein Prif Arholwr, yn un sy'n chwarae rhan allweddol yng ngwaith y Gymdeithas. Hoffwn ddiolch iddi hithau am ei harweiniad cadarn wrth lywio gweithgarwch pwysica'r Gymdeithas.

Mae nifer o aelodau, ac eraill, yn gwasanaethu'r Gymdeithas mewn ffyrdd eraill. Rwy'n ddiolchgar iawn i'r rhai sy'n cyfrannu at waith y Gymdeithas fel arholwyr a marcwyr y drefn arholi, fel tiwtoriaid gweithdai, fel goruchwylwyr yr arholiadau, a'r rhai sydd mor barod i gynorthwyo pan af ar eu galw ynghylch rhyw dasg neu'i gilydd. Mae'r cydweithio braf rhwng y staff a'r aelodau trwy'r ymwneud hwn yn un o gryfderau mawr y Gymdeithas, a hir y parhaed hynny.

Caiff y Gymdeithas ei hariannu'n rhannol gan Lywodraeth Cymru. Hoffwn ddiolch am y grant hwn sydd wedi dod ag elfen gref o sefydlogrwydd i'r Gymdeithas, yn ogystal â chaniatáu i ni barhau â chenhadaeth bwysig y Gymdeithas wrth iddi gynnal safonau cyfieithu proffesiynol.

